

# PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

11 Hydref 2017

Yn Bresennol: Mrs J James, Cyngorydd M James, Mr AE Sangster, Cyngorydd M Williams a'r Cyngorydd S Yelland; Mr S Bradley (PLANED), Ms S Green, Mr P Howe (Cyngor Sir Penfro), Mr G Lloyd-Jones (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Mrs J Mansfield.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.15pm)

## 1. Gair o Groeso

Estynnodd y Cadeirydd groeso i ddau Aelod Ymgynghorol newydd i'r Pwyllgor, a chyflwynodd y rhai oedd yn bresennol eu hunain.

## 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorydd K Doolin a Ms L Livock (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro).

## 3. Datgan Buddiannau

Datganodd Mr S Bradley a Mr G Lloyd-Jones fuddiant personol yn eitem SDF 0373, ond roeddent wedi aros yn y cyfarfod ac wedi cymryd rhan lawn yn y trafodaethau ar yr eitem.

## 4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Nodwyd y dylai Mrs J James fod wedi ei chynnwys ar y rhestr o'r ymddiheuriadau gan fod Dr R Heath-Davies wedi dirprwyo iddi. Hefyd roedd camgymeriad yn y cofnodion Cymraeg lle'r oedd y Cyngorydd R Lewis wedi'i restru fel Dirprwy Gadeirydd yn hytrach na'r Cyngorydd K Doolin.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2017 cyn belled ag y gwneir y newidiadau uchod.

## 5. Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Roedd adroddiad Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF) wedi amlinellu'r 3 chais oedd gerbron y Pwyllgor i'w hystyried y diwrnod hwnnw. Roedd yr adroddiad hefyd yn diweddarau'r Pwyllgor ar bob un o'r prosiectau cyfredol a'r camau ymlaen a gymerwyd.

Aeth y Gweinyddwr SDF rhagddo i roi adroddiad ar y sefyllfa ariannol oedd yn dangos bod £40,288 o arian heb ei ymrwymo yn dal ar gael ar gyfer prosiectau newydd. Roedd y ceisiadau a dderbyniwyd yn gofyn am

£25,475 yn 2017-18, £7,972 yn 2018-19 a £4,782 yn 2019-20. Felly, os ystyrir bod y ceisiadau yn deilwng, roedd digon o arian ar gael i gefnogi pob cais a dderbyniwyd i'r prosiect, a byddai £14,813 o arian yn dal ar ôl heb ei ymrwymo ar gyfer ceisiadau newydd ychwanegol.

O ran y cynllun Grant Bach Gwyrdd, derbyniwyd 3 chais yn 2017-18, er mai ond un o'r rhain oedd wedi ei gymeradwyo. Felly roedd £3,000 yn parhau wedi'i ymrwymo i'w ddyrannu i brosiectau'r Grant Bach Gwyrdd. Dywedwyd mai Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) sy'n gweinyddu'r cynllun hwn.

Fel y nodwyd eisoes, roedd dau Aelod Ymgynghorol newydd wedi'u penodi i'r Pwyllgor sy'n cynrychioli'r sector busnes/preifat, a dau Aelod Ymgynghorol sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol/cymunedol wedi'u hailbenodi. Roedd llythyrau diolch wedi'u hanfon at yr aelodau hynny nad oedd am gael eu hailbenodi.

Roedd yr adroddiad hefyd yn diweddarau'r Pwyllgor ar y taflenni newydd a gynhyrchwyd ar y gronfa SDF a'r Grant Bach Gwyrdd, ar y cyflwyniad a wnaed yn y Sioe Frenhinol, ac ar Adroddiad Blynyddol yr SDF 2016-17 oedd wedi'i ddsbarthu i'r Pwyllgor.

Ychwanegodd y Cadeirydd, yn dilyn cyflwyniad gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn Seminar Parciau Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar, bod enghreifftiau o brosiectau da SDF wedi'u rhoi i'r Comisiynydd iddi eu defnyddio.

## **NODWYD.**

### **6. Ceisiadau am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried 3 cais newydd am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF). Cafodd y ceisiadau eu hystyried yn fanwl yn erbyn meini prawf asesu'r gronfa, yn dilyn cyflwyniad byr gan bob un o ymgeiswyr y prosiect. Atgoffodd y Gweinyddwr SDF yr Aelodau bod nifer o'r ceisiadau oedd wedi'u cynnwys ar yr agenda y diwrnod hwnnw yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif.

<b>Cyfeirnod</b>	<b>Enw'r Prosiect</b>	<b>Cyflwynwyd gan</b>	<b>Sefydliad</b>
SDF 0372	Treialu Dyframaethu Adfer Wystrys Brodorol	Dr Andrew Woolmer	Tethys Oysters Cyf
SDF 0373	Gwasanaethau Coetir De Sir Benfro	Murray Taylor	Gwasanaethau Coetir De Sir Benfro
SDF 0374	Heritage Guardians/Arwyr Amser	Delun Gibby	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol oedd i wneud penderfyniad, yn ôl cylch gorchwyl y Pwyllgor, gan gymryd barn yr Aelodau Ymgynghorol hynny oedd yn bresennol i ystyriaeth.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD:**

- (a) bod y swm llawn o arian y gofynnir amdano yn cael ei roi i'r ceisiadau canlynol, yn unol â'r amodau grant arferol:
  - (i) SDF 0372 – Treialu Dyframaethu Adfer Wystrys Brodorol.
  - (ii) SDF 0374 – Heritage Guardians/Arwyr Amser.
  
- (b) gohirio'r cais canlynol tan y cyfarfod o'r Pwyllgor fis Ionawr:
  - (i) SDF 0373 Gwasanaethau Coetir De Sir Benfro - i ganiatáu i'r ymgeisydd gyflwyno gwybodaeth bellach ynglŷn â chynllunio busnes a manteision amgylcheddol y gwaith fyddai'n cael ei wneud.